# Taflen Wybodaeth y Claf 21

## Deddf Iechyd Meddwl 1983

## Adran 135: Derbyn Cleifion sydd wedi'u Symud gan yr Heddlu Dan Warant Llys

Fe ddaethpwyd â chi i:

| |
|---|
| |

Dyddiad ac amser dechrau eich cadw dan adran 135:

| |
|---|
| |

### Pam y daethpwyd â fi i'r ysbyty?

Daethpwyd â chi i'r ysbyty dan adran 135 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae hyn yn golygu bod ynad wedi rhoi gwarant yn nodi y gall swyddog heddlu ddod â chi yma ac y gellir eich cadw chi yma, hyd yn oed os nad ydych eisiau dod.

Cafodd y warant ei rhoi gan fod gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy o'r farn y gallai fod gennych anhwylder meddyliol ac y gallai fod arnoch angen triniaeth neu ofal.

Mae gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy yn rhywun sydd wedi cael hyfforddiant penodol i helpu i benderfynu a oes angen i rywun fod yn yr ysbyty.

Os oes gan swyddog heddlu bryderon am ddiogelwch, mae hawl ganddo eich archwilio os oes ganddo sail resymol i gredu bod gennych eitem yn eich meddiant a allai gael ei defnyddio i'ch niweidio chi eich hunan neu bobl eraill.

### Am ba hyd y byddaf i yma?

Gellir eich cadw chi yma (neu mewn man diogel arall) am 24 awr **o'r adeg**:

- pan gewch eich symud i fan diogel, **yr adeg pan fyddwch yn cyrraedd y man hwnnw**;
- neu'r adeg pan cewch eich cadw ar yr eiddo a bennir yn y warant, **yr adeg pan fo'r swyddog heddlu yn mynd i mewn i'r eiddo am y tro cyntaf i weithredu'r warant**

fel bod modd i feddyg a gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy eich gweld.

Os yw'r meddyg a'r gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy yn cytuno bod angen i chi aros yn yr ysbyty, mae'n bosibl y gofynnir i feddyg arall eich gweld er mwyn cymeradwyo'r penderfyniad.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall meddyg roi caniatâd i chi gael eich cadw mewn man diogel arall, neu eich symud i fan diogel arall am 12 awr arall. Nid oes hawl i'ch cadw mewn unrhyw fan diogel am fwy na 36 awr, o dan adran 135.

Yn ystod yr amser y caniateir i chi gael eich cadw mewn man diogel, ni ddylech adael oni bai bod meddyg yn dweud wrthych bod gennych hawl i wneud hynny.

Os byddwch yn ceisio gadael, gall y staff eich rhwystro, a gellir dod â chi'n ôl yma.

Os na fydd y meddyg a gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wedi eich gweld cyn pen 24 awr (neu weithiau 36 awr), byddwch yn rhydd i adael.

Ond gallech chi benderfynu aros yma'n wirfoddol. Os byddwch am adael, siaradwch â'ch meddyg yn gyntaf.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Pan fydd y meddyg a gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wedi eich gweld, gallent ddweud bod angen i chi aros yn yr ysbyty am fwy o amser. Byddant yn egluro'r rheswm am hynny i chi, a byddant yn dweud am ba hyd yr ydych yn debygol o fod yn yr ysbyty. Byddwch yn cael taflen arall i egluro beth fydd yn digwydd nesaf.

## A gaf i apelio?

Na. Ni chewch apelio yn erbyn y penderfyniad i'ch cadw yn yr ysbyty dan adran 135, hyd yn oed os nad ydych yn cytuno bod angen i chi fod yn yr ysbyty.

## A fyddaf yn cael triniaeth?

Bydd y meddyg yn sôn wrthych am unrhyw driniaeth y mae o'r farn y dylech ei chael, ac yn trafod hynny â chi. Mae gennych hawl i wrthod unrhyw driniaeth nad ydych ei heisiau.

Dim ond mewn amgylchiadau arbennig, a fyddai'n cael eu hegluro i chi, y gellir rhoi triniaeth i chi nad ydych am ei chael.

## Sut y gallaf i gwyno?

Os byddwch am godi pryder neu wneud cwyn am unrhyw ran o'ch gofal neu eich triniaeth yn yr ysbyty, dylech siarad â'r unigolyn sy'n gyfrifol am uned yr ysbyty yr ydych ynddi, neu dylech siarad â nyrs neu weithiwr cymdeithasol. Mae'n bosibl y gallant ddelio â'r mater. Os na fyddwch yn hapus â'u hymateb, gallwch ysgrifennu at Reolwyr yr Ysbyty yn y cyfeiriad canlynol (Gwybodaeth i'w hychwanegu yn lleol):

Os na fyddwch yn hapus ag ymateb y Rheolwyr, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl. Sefydlwyd y gwasanaeth hwn i wneud yn siŵr bod y gyfraith iechyd meddwl yn cael ei defnyddio'n iawn a bod cleifion yn cael y gofal priodol pan fyddant yn yr ysbyty.

Gallwch gysylltu â nhw dros y ffôn, yn ysgrifenedig neu dros e-bost:

Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ

**Ffôn::** 0300 062 8327
**E-bost:** rsmh@gov.wales

Gallwch hefyd gysylltu â'r Gwasanaeth Adolygu ar ôl i chi adael yr ysbyty.

## Rhoi gwybod i'ch perthynas agosaf

Bydd y person a nodir fel eich perthynas agosaf yn y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael copi o'r daflen hon. Rydym yn deall mai eich perthynas agosaf yw:

| |
|---|
| |

Os nad ydych am i'r unigolyn uchod gael copi o'r daflen hon, dywedwch wrth yr aelod o staff sy'n egluro hyn wrthych, neu aelod arall o staff.

I gael mwy o wybodaeth am rôl y Perthynas Agosaf a'i hawliau, gofynnwch am gopi o'r daflen ynghylch y Perthynas Agosaf.

## Newid eich Perthynas Agosaf

Os nad ydych yn credu bod yr unigolyn hwn yn addas i fod yn Berthynas Agosaf i chi, gallwch wneud cais i'r Llys Sirol yn gofyn i rywun arall gael ei ystyried yn berthynas agosaf i chi. Gall staff yr ysbyty roi taflen i chi a fydd yn egluro hynny.

## Cod Ymarfer Cymru

Mae Cod Ymarfer Cymru yn rhoi cyngor i staff ynghylch Deddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd yn rhaid iddynt feddwl am yr hyn y mae'r Cod yn ei ddweud pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch eich gofal a'ch triniaeth. Gallwch ofyn am gael gweld copi o'r Cod.

## Rhagor o Wybodaeth a Chymorth

Os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall ynglŷn â'ch gofal a'ch triniaeth, bydd aelod o'r staff yn barod i'ch helpu. Gofynnwch i un o'r staff am esboniad os nad ydych yn deall unrhyw beth yn y daflen hon, neu os oes gennych fwy o gwestiynau.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49865
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg